



## Helpu rhywun sydd wedi

# llosgi

Cam allweddol:
**Oeri'r llosg.**



## Gwybod beth i'w wneud:

Efallai ei fod wedi cyffwrdd rhywbeth poeth ac efallai fod ei groen yn goch ac yn boenus ac efallai fod pothelli arno.

## Camau i'w cymryd:

Oerwch y llosg o dan ddŵr oer sy'n llifo am o leiaf 20 munud.

Ffoniwch 999 os ydych chi'n credu bod y llosg yn ddifrifol. Gofynnwch am gyngor meddygol os nad ydych yn siŵr neu os yw plentyn wedi cael ei losgi.

Ar ôl i'r llosg gael ei oeri, gorchuddiwch y llosg â chling ffilm neu fag plastig glân.

## Gwybodaeth ategol:

Bydd oeri'r llosg yn lleihau'r boen a'r risg o greithio. Gorau po gyntaf y bydd y llosg yn cael ei oeri â dŵr oer sy'n llifo, er mwyn i'r anaf gael llai o effaith.

Os nad oes gennych chi ddŵr oer, defnyddiwch unrhyw hylif diogel fel llaeth, sudd oren neu ddiod pop.

Mae gorchudd plastig fel cling ffilm yn helpu i atal haint drwy gadw'r llosg yn lân. Ni fydd cling ffilm na phlastig yn glynu wrth y llosg a bydd yn lleihau'r boen drwy gadw aer oddi ar arwyneb y croen.

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol.
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd